

Adolygu Gweithrediad y Cynllun Busnes

Cyflwyniad

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ymroddedig i ymgysylltu â rhanddeiliaid ym mhob cwr o Gymru. Gyda chyfnod anodd o'n blaenau, mae ymgysylltu â dinasyddion Cymru, ein cwsmeriaid, rhanddeiliaid a chydweithwyr, yn bwysicach nag erioed o'r blaen.

Gosododd Deddf Llywodraeth Cymru 1998 ddyletswydd statudol ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i ymgynghori â byd busnes pan fydd ymarfer ei swyddogaethau yn effeithio ar fyd busnes. Atgyfnerthwyd y ddyletswydd hon gan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, a'i gwnaeth hi'n ofynnol bod Gweinidogion Cymru yn llunio Cynllun Busnes i bennu sut yr oeddent yn bwriadu ymgynghori â byd busnes.

Drafftwyd y Cynllun Busnes ar ôl ymgynghori helaeth gyda Busnes Cymru a TUC Cymru. Gyda chytundeb y Cabinet, cyhoeddwyd y Cynllun Busnes yn 2008. Yr egwyddor arweiniol, a bennir yn y Cynllun Busnes, yw y dylai byd busnes (gan gynnwys undebau llafur a mentrau cymdeithasol) gael eu cynnwys yn y broses o lunio polisi cyn gynhared ag y bo modd. Mae Cyngor Adfywio'r Economi, a ffurfiwyd yn ddiweddar, yn adeiladu ar lwyddiant y Cyngor Partneriaeth Busnes gynt i roi cyfle pellach i lais y cyflogwr a'r gweithiwr cyflog gael eu clywed wrth galon llywodraeth. Yn y cyd-destun hwn, ac yn unol â gofynion y Cynllun Busnes, penderfynodd y Cyngor newydd, ar 1 Rhagfyr 2010, y dylid cynnal adolygiad o weithrediad y Cynllun Busnes yn awr er mwyn dysgu gwersi ac archwilio sut i gryfhau'r cydberthnasau pwysig hyn.

Dull gweithredu

Ceir eisoes gorff o adborth ffurfiol ac anffurfiol gan fyd busnes a rhanddeiliaid eraill ynglŷn ag effeithiolrwydd trefniadau partneriaeth, yn gysylltiedig â'r Cyngor Partneriaeth Busnes a'r gyfres ddiweddar o Uwchgynadleddau Economaidd. Trafodwyd rhinweddau'r Cynllun Busnes yng nghyfarfod cyntaf Cyngor Adnewyddu'r

Economi a gynhaliwyd ym mis Rhagfyr 2010. Mae'r Adolygiad hwn yn awr yn canolbwyntio ar effeithiolrwydd gweithrediad y Cynllun Busnes yn hytrach na'r egwyddorion sylfaenol – egwyddorion y mae adborth partneriaid cymdeithasol yn cadarnhau'n sy'n rhai cyffredinol gadarn.

Y dull gweithredu a fabwysiadwyd fu adolygu adborth a dderbyniwyd eisoes, ceisio mewnbwn pellach gan randdeiliaid allanol ac archwilio'n fewnol, gydag arweinwyr adrannol, weithrediad y Cynllun Busnes cyn belled. Ymdrinnir â chanlyniad y gwaith hwn yn yr adrannau dilynol.

Gweithrediad a Materion Cyfredol

Cyflwynodd Deddf Llywodraeth Cymru 2006 yr angen i Weinidogion Cymru baratoi a mabwysiadu Cynllun Busnes yn amlinellu sut y bwriadent ymgysylltu â'r gymuned fusnes ynglŷn â materion sy'n effeithio ar eu buddiannau. Cyn cyflwyno'r Cynllun, yr oedd yna dri phrif fecanwaith yr oedd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn eu defnyddio i ymgysylltu â'r gymuned fusnes ynghylch materion o'r fath: drwy ymgynghoriadau ffurfiol a oedd yn gysylltiedig â chynigion polisi, drwy gyfrwng cyfarfodydd dwyochrog â Gweinidogion a drwy fecanwaith y Cyngor Partneriaeth Busnes. Mae'n bwysig nodi, wrth adolygu effeithiolrwydd y Cynllun Busnes, na wnaeth ei gyflwyno ddisodli unrhyw un o'r mecanweithiau ymgynghori hyn.

Mae'r Cynllun Busnes yn canolbwyntio ar bedwar maes bras. Y rhain yw, yn gyntaf, egwyddorion partneriaeth a datblygu polisi (gan gynnwys ymgynghori); yn ail, gweithredu Cyngor Partneriaeth Busnes (a elwir yn awr yn Gyngor Adnewyddu'r Economi); yn drydydd, Asesiadau Effeithiau Rheoliadol, ac yn olaf, cadw'r Cynllun Busnes dan adolygiad rheolaidd. Mae adrannau dilynol yr Adolygiad yn canolbwyntio ar bob un o'r tri maes hyn, o ran eu gweithrediad.

Partneriaeth a Datblygu Polisi

Ceir cydberthynas glir rhwng canlyniadau polisi da ac ymgysylltu'n fuan ac yn rhagweithiol gyda rhanddeiliaid, yn enwedig pan fydd ymgysylltu o'r fath yn digwydd

yng nghamau cynnar y broses datblygu polisi. Mae ymgysylltu o'r fath yn caniatáu i bolisiâu gael eu lliwio a'u llunio gan y rheiny sydd fwyaf tebygol o deimlo eu heffaith. Mae hefyd yn gyfle i gynnwys a grymuso eraill yn y broses llunio polisi, a gall esgor ar ddulliau gweithredu mwy arloesol (e.e. ProACT).

Mae'r Cynllun Busnes yn corffori'r egwyddor allweddol hon ac yn adeiladu arni. Ceir cytundeb parhaus ac eang felly bod ffocws y Cynllun yn parhau'n gywir. Fodd bynnag, elfen greiddiol o wella ymgysylltu, a phartneriaethau parhaus, yw sicrhau bod y Cynllun Busnes yn cael ei weithredu'n briodol ac yn effeithiol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn ei chyfanrwydd, nid dim ond yr Adran Economi a Thrafnidiaeth. Mae'r gofyniad hwn yn gyson â chyflawni dull gweithredu'r Llywodraeth gyfan sy'n sail i Adnewyddu'r Economi ac, yn wir, yn hollbwysig ar gyfer hynny.

Mewn termau cyffredinol, mae adborth gan rhanddeiliaid wedi cyfleu pryder gwirioneddol nad yw'r Cynllun Busnes wedi'i weithredu mor effeithiol ag y gellid bod wedi'i weithredu ar draws holl Adrannau Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae hyn, yn ei dro, yn adlewyrchu adroddiadau o ddiffyg ymgysylltu buan â byd busnes gan rai Adrannau wrth lunio polisi.

Nid yw rhanddeiliaid yn credu bod pob lluniwr polisi allweddol o fewn Llywodraeth Cynulliad Cymru yn llwyr ddeall gofynion y Cynllun Busnes na chwaith yn ystyried effaith llunio polisi ar fuddiannau byd busnes. Mae hon yn ystyriaeth arbennig o bwysig ar gyfer y rhaglen ddeddfwriaethol a rheoliadol, lle bydd deall effaith a chanlyniadau llawn polisiâu (yn unigol ac yn gronnol, y naill a'r llall) ar fusnes yn hollbwysig ar gyfer economi sy'n perfformio'n well.

Mae rhanddeiliaid busnes wedi cyfeirio at enghreifftiau lle gweithredwyd polisiâu a allai fod wedi elwa ar ymgysylltu â rhanddeiliaid a, thrwy hynny, sicrhau gwell cydnabyddiaeth o'r effaith ar fyd busnes. Yn benodol, mae rhanddeiliaid yn awyddus i osgoi sefyllfaoedd lle nad yw byd busnes a'r undebau llafur yn cael gwybod am gyhoeddiadau polisi sy'n effeithio arnynt hwy.

Er, yn sicr, bod lle i wella o ran gwreiddio gweithrediad egwyddorion y Cynllun Busnes yn fwy cyson ac yn fwy effeithiol ar draws yr holl adrannau, gwelwyd, yn

ystod y ddwy flynedd ers mabwysiadu'r Cynllun Busnes am y tro cyntaf, rai enghreifftiau cadarnhaol iawn o ymgynghori a gweithio mewn partneriaeth.

Daeth y Cynllun Busnes i fodolaeth ar yr union adeg pan oedd holl rym y dirwasgiad yn dechrau taro economi Cymru. Yn ei hymateb, symudodd Llywodraeth y Cynulliad yn sydyn i ddwyn ynghyd y Llywodraeth, byd busnes a rhanddeiliaid eraill drwy'r Uwchgynadledau Economaidd Cymru-gyfan i fynd i'r afael ag effaith frys y dirwasgiad a sicrhau bod polisiau megis ProACT yn cael eu ffurfio a'u datblygu'n llwyddiannus.

Yn wir, rhaid ystyried y gwaith partneriaeth a'r datblygu polisi a ddigwyddodd yng Nghymru yn ystod y dirwasgiad byd-eang wrth adolygu gweithrediad y Cynllun Busnes.

Cynhaliwyd yr Uwchgynadledau Economaidd rhwng hydref 2008 a gwanwyn 2010 a datblygwyd polisiau a gweithredoedd a oedd yn cefnogi byd busnes a chymunedau drwy'r dirywiad. Roedd yr Uwchgynadledau Economaidd yn golygu, mewn ymarfer, bod byd busnes yn gweld mwy ar Weinidogion o holl adrannau Llywodraeth y Cynulliad ac yn cael mwy o gyfle nag erioed o'r blaen i ymgysylltu â nhw. Drwy'r broses Uwchgynadledau, aeth Llywodraeth y Cynulliad y tu hwnt i'r hyn a ragwelwyd yn y Cynllun Busnes o ran darparu model partneriaeth o weithio i fyd busnes (a rhanddeiliaid eraill) a mewnbwn amser real i lunio polisi ar draws y Llywodraeth.

Mae'r fath lefel o ryngweithio, bod yn agored a hygyrchedd gan Weinidogion Cymru yn rhywbeth y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn dymuno adeiladu arni – mae sicrhau bod y Cynllun Busnes yn cael ei weithredu'n effeithiol yn rhan bwysig o'r dyhead hwnnw.

Mae'n amlwg bod rhagor eto i'w wneud o ran codi ymwybyddiaeth llunwyr polisi a gwreiddio egwyddorion y Cynllun Busnes yn fwy cyson ac yn fwy effeithiol ar draws yr holl Adrannau. Mae'r gwaith hwn eisoes wedi dechrau fel rhan o gynllun ehangach sydd eisoes ar waith ar draws Llywodraeth Cynulliad Cymru, i wella cymhwysedd llunwyr polisi ac effeithiolrwydd y prosesau llunio polisi. Mae yna gyfleoedd amlwg i

godi ymhellach broffil y Cynllun a phwysigrwydd y dull gweithredu mae'n ei hyrwyddo, fel rhan o waith parhaus sydd wedi'i anelu at sicrhau bod yr aelodau staff hynny a ddynodwyd yn rhan o'r proffesiwn polisi yn gweithredu'n fwy effeithiol.

Cyngor Partneriaeth Busnes

Canlyniad y broses Uwchgynadleddau Economaidd oedd atal, dros dro, y Cyngor Partneriaeth Busnes gynt, y mae ei swyddogaeth yn awr yn cael ei pharhau a'i chryfhau gan Gyngor Adnewyddu'r Economi.

Mae ail-rymuso model ymgysylltu'r Cyngor Partneriaeth Busnes gynt yn ymrwymiad allweddol i Adnewyddu'r Economi. Mae'r ymrwymiad hwn, fwy na heb, yn adlewyrchu'r farn a fynegwyd gan randdeiliaid byd busnes ac undebau llafur bod y model Uwchgynadleddau Economaidd, er mor effeithiol y bu o ran sicrhau ymateb unigryw Gymreig yn ystod y dirwasgiad, yn y bôn, wedi chwythu ei blwc. Yr oedd barn gyffredinol o blaid dychwelyd at fodel ymgysylltu'r Cyngor Partneriaeth Busnes gynt. Fodd bynnag, yr oedd hi hefyd yn amlwg nad oedd parhau â threfniadau blaenorol y Cyngor Partneriaeth Busnes yn ddigonol. Roedd y cais yn glir – bod angen i Lywodraeth y Cynulliad ddysgu gwersi a mabwysiadu arferion gorau gan yr Uwchgynadleddau Economaidd a datblygu lefel fwy ystyrlon o ymgysylltu nag y gallai trefniadau blaenorol y Cyngor Partneriaeth Busnes ei chynnig.

Ochr yn ochr â hyn, yr oedd Llywodraeth y Cynulliad ei hun yn ymroddedig i adeiladu ar ddiwylliant a dull gweithredu ymgysylltu buan yn y broses llunio polisi a oedd yn nodwedd o ddatblygiad Adnewyddu'r Economi. Mae hyn yn golygu cryfhau a datblygu ymgysylltu mwy ystyrlon â byd busnes – ac aed i'r afael â hyn yn rhannol drwy sefydlu Cyngor Adnewyddu'r Economi a'i weithgor cysylltiol (i ddisodli ac i olynu'r Cyngor Partneriaeth Busnes gynt).

Nod Cyngor Adnewyddu'r Economi yw adeiladu ar elfennau gorau'r Cyngor Partneriaeth Busnes gynt, y gwersi a ddysgwyd o'r Uwchgynadleddau Economaidd, megis pwysigrwydd dull gweithredu sy'n canolbwyntio ar weithredu, a darparu ffordd o weithio a fydd yn sicrhau ymgysylltu gwell, mwy effeithiol a strategol.

Asesiadau Effaith Rheoliadol

Mater allweddol yn nhyb rhanddeiliaid, a mater y mae'r rhaglen ddeddfwriaethol yn tynnu sylw cynyddol ato, yw'r angen i Lywodraeth y Cynulliad lwyr ddeall effaith a chostau ei chynigion rheoliadol a deddfwriaethol yn ddigon buan. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn cydnabod bod angen gwneud mwy i asesu effaith cynigion penodol ar fyd busnes a bod rhaid i'r broses asesu olygu her sylweddol ynghylch effeithiau economaidd.

Eir i'r afael, yn rhannol, â'r pryderon hyn drwy ymgysylltu'n well â byd busnes yng nghyfnod cynnar y broses llunio polisi fel rhan o welliant parhaus brosesau Llywodraeth y Cynulliad, er enghraifft, drwy ddynodi a mynd i'r afael ag effaith gronol rheoliadau unigol. Mae hyn yn gofyn am weithio mwy cydgysylltiedig y tu mewn a'r tu allan i Lywodraeth y Cynulliad.

Adolygu'r Cynllun Busnes i'r Dyfodol

Un o ofynion y Cynllun Busnes yw y dylai fod yn destun adolygiad. Mae adolygu rheolaidd hefyd yn arfer da. Dan ddarpariaethau'r Cynllun Busnes, dylai'r Adolygiad fod wedi digwydd yn ystod 2010; fodd bynnag, bu oedi tra'r oedd y broses Uwchgynadledau Economaidd yn cael ei dirwyn i ben a threfniadau'n cael eu rhoi ar waith ar gyfer y Cyngor Adnewyddu'r Economi newydd. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn ymrwmo i gynnal Adolygiad ffurfiol pellach o'r Cynllun Busnes (gan roi sylw dyledus i'w effaith a'i weithrediad, y naill a'r llall) erbyn Ebrill 2013.

Symud Ymlaen

Mae'r Adolygiad hwn wedi canolbwyntio ar faterion gweithrediad y Cynllun Busnes yn hytrach nag ar ei egwyddorion cyffredinol. Yn amlwg, cafwyd rhai pryderon ynglŷn â sut y cafodd y Cynllun Busnes ei weithredu ac, yn benodol, ynglŷn â pha mor gyson y glynydd wrtho. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn cydnabod nifer o'r pryderon hyn,

ac fel y nodwyd yn yr adran flaenorol, mae camau ar droed i fynd i'r afael â'r pryderon hynny.

Ymhellach, o ganlyniad i'r newid trefniadaethol a gyflawnwyd yn ddiweddar o fewn Adran yr Economi a Thrafnidiaeth, mae uwch swyddog yn cael ei recriwtio i ysgwyddo'r rôl bwysig o Bennaeth Ymgysylltu â Rhanddeiliaid. Bydd y swyddogaeth hon yn rhyngwyneb hollbwysig rhwng yr Adran a rhanddeiliaid, yn fewnol ac allanol fel ei gilydd.

Ar ben hynny, yng nghyfarfod cyntaf Cyngor Adnewyddu'r Economi, cytunodd y Prif Weinidog â rhanddeiliaid byd busnes ac undebau llafur ynghylch nifer o bwyntiau a fydd yn cael effaith uniongyrchol a phwysig ar weithrediad y Cynllun Busnes wrth iddo symud ymlaen. Y rhain yw:-

- Pob parti i gadarnhau o'r newydd eu bwriad i weithio gyda'i gilydd ym maes datblygu polisi sy'n effeithio ar fyd busnes a'r economi, tra'n cydnabod ar yr un pryd mai cyfrifoldeb Gweinidogion Cymru yw'r penderfyniadau polisi terfynol.
- Ymrwymiad diamwys i ysbryd adran 75 Deddf Llywodraeth 2006 a gweithrediad y Cynllun Busnes.
- Cadarnhau rôl Uned Partneriaid Cymdeithasol Cymru yn gweithio gydag Adrannau Llywodraeth y Cynulliad a sefydliadau busnes er mwyn hwyluso gweithrediad y Cynllun Busnes.
- Cytundeb i sicrhau bod pob cynnig deddfwriaethol a rheoliadol yn cael Asesiad Risg Rheoliadol wedi'i baratoi yn gynnar yn y broses o ddatblygu polisi, a lle mae angen gwybodaeth o fyd busnes, bod sefydliadau busnes yn ymrwymo i helpu i'w paratoi.
- Pob un o Weinidogion Cymru, o leiaf unwaith y flwyddyn, i adrodd i Gyngor Adnewyddu'r Economi ynghylch gweithrediad y Cynllun Busnes o fewn eu

Hadran. (Fel y pennwyd yn y Cynllun Busnes yng nghyswllt y Cyngor Partneriaeth Busnes gynt).

- Sicrwydd bod gan bob un o Adrannau Llywodraeth Cynulliad Cymru uwch swyddogion dynodedig i fod yn gyfrifol am sicrhau proses ymgysylltu briodol gyda byd busnes yng nghyswllt polisi, deddfwriaeth a rheoleiddio.

I Gloi

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn parhau'n ymroddedig i egwyddor ymgysylltu buan yn y broses llunio polisi ac i weithrediad effeithiol y Cynllun Busnes. Wrth gydnabod na weithredwyd y Cynllun Busnes yn gwbl gyson ar draws pob Adran a bod ei ganlyniadau'n gymysg, mae effaith y dirwasgiad a'r trefniadau unigryw a ddaeth i rym yn sgil yr Uwchgynadleddau Economaidd, gan gynnwys atal trefniadau'r Cyngor Partneriaeth Busnes, wedi golygu na chafodd y Cynllun Busnes gyfle i sefydlu ei hun yn llawn.

Yn sgil y trefniadau ymgynghori unigryw a sefydlwyd fel ymateb i'r dirwasgiad economaidd ac yn gysylltiedig â'r Uwchgynadleddau Economaidd, cafwyd ymgysylltu mwy clos a mwy amserol rhwng Gweinidogion a'r Gymuned Fusnes yng nghyswllt llunio polisi. Fodd bynnag, mae angen sicrhau yn awr bod gwerth ymgysylltu'n fuan â rhanddeiliaid, fel y profwyd wrth ddatblygu cynlluniau megis ProACT, yn cael ei wreiddio mewn trefniadau partneriaethau busnes i'r dyfodol drwy daenu negeseuon arferion gorau a drwy weithredu canllawiau a gweithdrefnau diwygiedig.

Gyda diwedd yr Uwchgynadleddau Economaidd, a sefydlu corff partneriaeth busnes cryfach ar ffurf Cyngor Adnewyddu'r Economi, ceir cyfle real a gwirioneddol yn awr i gyflawni egwyddorion y Cynllun Busnes. Wrth wraidd y cyfan hyn y mae dull gweithredu'r Llywodraeth gyfan tuag at Adnewyddu'r Economi a'i hymrwymiad i bartneriaeth barhaus a datblygu ymgysylltu buan pellach yn y broses llunio polisi.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn benderfynol o adeiladu ar y gwersi a ddysgwyd gan yr Uwchgynadleddau Economaidd, a'r negeseuon cwbl glir o fyd busnes ac eraill

bod angen datblygu prosesau ymgysylltu mwy adeiladol a mwy effeithiol. Yn y cyddestun hwn, bydd y camau sydd eisoes yn cael eu gweithredu a'u tanlinellu yn yr Adolygiad hwn, ynghyd â'r argymhellion sydd ar droed, yn gymorth i sicrhau bod y Cynllun Busnes yn cael ei weithredu'n gyson ac yn effeithiol ar draws Llywodraeth Cynulliad Cymru ac yn sicrhau hefyd y dialog cryf ac effeithiol yr ydym un ac oll yn dyheu amdano.

DIWEDD